# Sut mae rhoi organau'n gweithio pan fyddwch chi'n marw?

**Mae angen i lawdriniaeth rhoi organau ddigwydd yn gyflym ar ôl i glaf farw er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r trawsblaniad lwyddo. Serch hynny, gall paru'r organau â'r claf iawn gymryd amser.**

**Caiff rhoddwyr organau eu trin gyda'r un**

- ✓ parch
- ✓
- ✓ a gofal

**ag unrhyw glaf arall.**

**Bydd y llawdriniaeth yn digwydd yn fuan ar ôl marw, felly ni fydd unrhyw oedi gyda'r trefniadau angladd, a bydd teuluoedd sy'n dymuno cael angladd ag arch agored yn dal i allu gwneud.**

**Unwaith y bydd yr organau wedi'u tynnu, byddan nhw'n cael eu cludo'n ofalus i ysbytai ledled y DU, yn barod i'w trawsblannu.**

**Bydd y cleifion sy'n derbyn yr organau yn cael cyfle arall i fyw. Fyddai hynny ddim yn bosibl heb haelioni'r rhoddwyr a'u teulu.**

**Mae tua 4,000 o drawsblaniadau organau yn cael eu cynnal ledled y DU bob blwyddyn diolch i bobl sy'n rhoi eu horganau ar ôl iddyn nhw farw.**



**Mae nifer o'r bobl sy'n derbyn trawsblaniad yn mynd ymlaen i fyw bywydau fyddai ddim yn bosibl heb trawsblaniad.**

**Nid yn unig y mae'n effeithio ar y person sy'n derbyn yr organ, ond o bosib, ansawdd bywyd y teulu hefyd.**

**Gallwch gynnig gobaith i gleifion a'u teuluoedd drwy gofrestru i fod yn rhoddwr organau. Ymunwch â Chofrestr Rhoddwyr Organau y GIG a dywedwch wrth eich teulu eich bod eisiau rhoi eich organau. Dyna'r  ffordd orau o sicrhau bod eich penderfyniad yn cael ei barchu ar ôl i chi farw.**



**Cofrestrwch nawr a dywedwch wrth eich teulu eich bod am roi rhodd bywyd**

Yes I donate ORGAN DONATION

organdonation.nhs.uk

23 23 123 0300

NHS Blood and Transplant